

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Diwygiedig 2018-2033 Cynllun Datblygu Lleol

Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft Methodoleg ar gyfer Pennu Safleoedd o Bwys ar gyfer Cadwraeth Natur yn Sir Gaerfyrddin



Tachwedd 2024

Cynnwys

1. Rhagarweiniad.....	3
2. Statws y Canllawiau Cynllunio Atodol	4
3. Y Cyd-destun o ran Polisi	4
4. Terminoleg	9
5. Dynodiad SINC.....	10

1. Rhagarweiniad

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) hwn yn un o gyfres o nodiadau cyfarwyddyd sydd wedi'u llunio i ategu a chefnogi Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig (CDLId) Sir Gaerfyrddin. Mae'n rhoi arweiniad pellach a, lle bo'n berthnasol, yn ymhelaethu ar sut y dylid gweithredu polisiau a chynigion y Cynllun Datblygu. Mae'r CCA hwn yn ategu'r gwaith o ystyried a chymhwyso Polisi NE1 yn benodol. Bwriad y CCA yw darparu'r fframwaith ar gyfer nodi a dynodi Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) a bydd yn sicrhau cysondeb a chadernid wrth eu dynodi ac wrth gymhwyso polisi'r CDLI o ganlyniad. Nid yw'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn berthnasol i'r rhan o Sir Gaerfyrddin sydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae Safleoedd o Bwys ar gyfer Cadwraeth Natur yn adnodd pwysig yn Sir Gaerfyrddin, sy'n cwmpasu ardaloedd sylweddol o gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth bioamrywiaeth. Mae dynodiad yn seiliedig ar feini prawf gwyddonol gwrthrychol ar gyfer Sir Gaerfyrddin sy'n cyd-fynd â chanllawiau Cymru gyfan. Mae'r CCA hwn yn nodi'r fethodoleg ar gyfer dynodi SINCs, ond bydd polisi'r CDLI yn berthnasol i bob safle sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer eu dynodi.

Wrth ddehongli'r canllawiau hyn, dylid hefyd ystyried polisiau perthnasol eraill y CDLI.

Bwriad y canllawiau hyn yw sicrhau bod pob parti, gan gynnwys y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac ymgeiswyr, yn cael cyngor a gwybodaeth glir mewn perthynas â dynodi ac adnabod Safleoedd o Bwys ar gyfer Cadwraeth Natur.

Bydd y Cyngor yn ystyried y CCA hwn wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Mae'n ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau ac apeliadau cynllunio, ochr yn ochr â pholisiau a darpariaethau'r CDLI a CCA eraill.

Yn unol ag arfer da, anogir ymgeiswyr i drafod datblygiadau gyda swyddogion cyn cyflwyno cais lle gallai fod goblygiadau o ran darpariaethau Polisi NE1 a'r Safleoedd dynodedig sydd o Bwys ar gyfer Cadwraeth Natur.

2. Statws y Canllawiau Cynllunio Atodol

Mae'r CCA hwn yn amodol ar ymarfer ymgynghori 6 wythnos a gynhelir mewn modd sy'n gyson â'r hyn a nodir yn y Cytundeb Cyflawni ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLI).

3. Y Cyd-destun o ran Polisi

Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo Sir Gaerfyrddin 2018 – 2033

NE1: Bydd cynigion datblygu Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol a fydd yn arwain at effeithiau andwyol i Warchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd Pwysigrwydd Cadwraeth Natur (SINC), a/neu Safleoedd Daearegol/Geomorffolegol o Bwysigrwydd Rhanbarthol (RIGS) ond yn cael ei ganiatáu lle y gellir dangos:

Bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r holl effeithiau andwyol yn unol â'r hierarchaeth liniaru; Pan nad yw hyn yn ymarferol, sicrhau fod mesurau digolledu digonol yn cael eu rhoi ar waith sy'n mynd i'r afael â'r holl effeithiau andwyol posibl ar y safleoedd hyn sy'n deillio o'r cynnig; neu mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae'r rhesymau dros y datblygiad a/neu'r newid mewn defnydd tir yn amlwg yn drech na'r angen i ddiogelu buddion cadwraethol y safle.

Ni ddylai cynigion datblygu achosi unrhyw golled sylweddol o gynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau, yn lleol neu'n genedlaethol, a rhaid iddynt ddarparu buddion net i fioamrywiaeth.

Mae paragraff 11.412 o'r CDLI Diwygiedig yn nodi 'Mae Safleoedd Pwysigrwydd Cadwraeth Natur yn cynnig potensial sylweddol fel adnodd bioamrywiaeth. Er nad oes unrhyw Safleoedd Pwysigrwydd Cadwraeth Natur wedi'u nodi yn ardal y Cynllun, mae mynd ati'n frwd i archwilio dynodiadau o'r fath yn dal yn un o amcanion yr awdurdod. Bydd unrhyw ddynodiad ar gyfer Safleoedd Pwysigrwydd Cadwraeth Natur yn y dyfodol yn cael ei wneud yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n dod i'r amlwg ac sy'n nodi'r fethodoleg ddiwygiedig ar gyfer eu hadnabod. Bydd y CCA hwn yn cael ei gynhyrchu ar yr un pryd â mabwysiadu'r Cynllun (2il Gynllun Datblygu Lleol diwygiedig 2018 – 2033).'

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

6. Y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau

(1) Rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio gofalu am a chryfhau bioamrywiaeth wrth gyflawni eu swyddogaethau ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y mae hynny'n gydnaws â chyflawni'r swyddogaethau hynny mewn modd priodol.

(2) Wrth gydymffurfio ag is-adran (1), rhaid i awdurdod cyhoeddus ystyried cydnerthedd ecosystemau, yn enwedig yr agweddau canlynol—

(a) amrywiaeth rhwng ac o fewn ecosystemau;

(b) y cysylltiadau rhwng ac o fewn ecosystemau;

(c) maint ecosystemau;

(d) cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad);

(e) hyblygrwydd ecosystemau.

...

(5) Wrth gydymffurfio ag is-adran (1), rhaid i awdurdod cyhoeddus ac eithrio un o Weinidogion y Goron neu adran o'r llywodraeth roi sylw i—

(a) y rhestr a gyhoeddir o dan adran 7;

(b) yr adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol a gyhoeddir o dan adran 8;

(c) unrhyw ddatganiad ardal a gyhoeddir o dan adran 11 ar gyfer ardal sy'n cynnwys ardal gyfan neu ran ohoni y mae'r awdurdod yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â hi.

(6) Rhaid i awdurdod cyhoeddus ac eithrio un o Weinidogion y Goron neu adran o'r llywodraeth baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud i gydymffurfio ag is-adran (1).

7. Rhestrau bioamrywiaeth a dyletswydd i gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi rhestr o'r organebau byw a'r mathau o gynefin sydd, yn eu barn hwy, o'r pwysigrwydd pennaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru.

(2) Cyn cyhoeddi rhestr o dan yr adran hon rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru ("CNC") ynghylch yr organebau byw neu'r mathau o gynefin sydd i'w cynnwys yn y rhestr.

(3) Heb ragfarnu adran 6, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella'r organebau byw a'r mathau o gynefinoedd sydd

wedi'u cynnwys mewn unrhyw restr a gyhoeddir o dan yr adran hon, ac

(b) annog eraill i gymryd camau o'r fath.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru, mewn ymgynghoriad â CNC—

(a) adolygu unrhyw restr a gyhoeddir ganddynt o dan yr adran hon,

(b) gwneud unrhyw ddiwygiadau o unrhyw restr o'r fath ag y mae'n ymddangos iddynt yn briodol,

a

(c) cyhoeddi unrhyw restr a adolygir felly cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ei diwygio.

(5) Wrth arfer eu swyddogaethau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru gymhwysu egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

Polisi Cynllunio Cymru 11

Safleoedd Dynodedig

6.4.10 Mae llawer o'r ardaloedd pwysicaf o werth cadwraeth natur wedi'u dynodi'n statudol. Mae'r safleoedd hyn sydd wedi'u dynodi'n statudol yn gwneud cyfraniad hanfodol at ddiogelu bioamrywiaeth a gallant hefyd fod yn bwysig wrth ddarparu cyfleoedd i gyflawni amcanion llesiant ehangach.

Hierarchaeth Dynodiadau: Rhyngwladol, Cenedlaethol, Lleol

6.4.11 Rhaid i awdurdodau cynllunio roi sylw i arwyddocâd cymharol dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol wrth ystyried y pwysau sydd ynghlwm wrth fuddiannau cadwraeth natur. Mae canllawiau pellach, yn enwedig mewn perthynas â safleoedd Natura 2000, wedi'u cynnwys yn TAN 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio.

6.4.12 Dylid cofnodi'r rhesymeg ategol dros y dynodiad ar bob lefel ac amlinelliad o nodweddion cymwys y dynodiad yn glir fel rhan o'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd a'i ystyried wrth lunio cynlluniau datblygu, wrth ddylunio cynigion datblygu newydd ac wrth wneud penderfyniadau rheoli datblygu.

Ffigur 12: Hierarchaeth Safleoedd Dynodedig

<i>Haen</i>	<i>Enw</i>	<i>Safleoedd a ddiogelir yn statudol ac yn anstatudol</i>
<i>Rhyngwladol</i>	<i>Ardal Cadwraeth Arbennig</i>	<i>Statudol</i>
	<i>Ardal Gwarchod Arbennig</i>	<i>Statudol</i>
	<i>Safleoedd Ramsar</i>	<i>Statudol</i>
	<i>Gwarchodfa Biosffer UNESCO</i>	<i>Anstatudol</i>
<i>Cenedlaethol</i>	<i>Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig</i>	<i>Statudol</i>
	<i>Gwarchodfa Natur Genedlaethol</i>	<i>Statudol</i>
<i>Lleol</i>	<i>Safleoedd o Bwys ar gyfer Cadwraeth Natur</i>	<i>Anstatudol</i>
	<i>Gwarchodfa Natur Leol</i>	<i>Anstatudol</i>
	<i>Safleoedd Bywyd gwyllt Lleol</i>	<i>Anstatudol</i>

Diogelu Dynodiadau Anstatudol

6.4.20 Er bod dynodiadau anstatudol yn llai pwysig na dynodiadau statudol, gallant wneud

cyfraniad hanfodol at ddarparu rhwydwaith ecolegol ar gyfer bioamrywiaeth ac ecosystemau cydnerth, a dylid eu llwyr amddiffyn mewn cynlluniau datblygu a'r broses rheoli datblygu. Cyn awdurdodi datblygiad sy'n debygol o niweidio dynodiad bywyd gwyllt lleol, dylai awdurdodau cynllunio roi rhybudd o'r gweithrediad arfaethedig i'r Ecolegydd Sirol a sefydliadau amgylcheddol y trydydd sector. Pan fo Asesiad Seilwaith Gwyrdd wedi nodi bod angen gwarchod neu wella nodweddion penodol o'r safle, dylai awdurdodau cynllunio ddatgan yn eu cynlluniau datblygu pa nodweddion sy'n gofyn am yr amddiffyniad ychwanegol hwn a pham, ac egluro sut y bydd y polisiau yn cyflawni'r amddiffyniad hwn. Yn yr un modd, dylai asesiadau ystyried presenoldeb rhywogaethau gwarchodedig a blaenoriaeth, gan gynnwys y rhai ar restr Adran 7 a'r pwysau priodol sydd ynghlwm wrth eu diogelu. Dylai polisiau ar gyfer safleoedd anstatudol ei gwneud yn glir nad yw dynodiadau o'r fath yn atal datblygiadau priodol, lle nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar y nodweddion y dynodir safle ar eu cyfer.

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio

Mae TAN5 yn nodi: **'5.5 Safleoedd Lleol**

Safleoedd Lleol: Mae'n cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur, Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd Bywyd Gwyllt a Safleoedd Daearegol o Bwysigrwydd Rhanbarthol

5.5.1 Mae gan safleoedd lleol ran bwysig i'w chwarae wrth gyrraedd targedau bioamrywiaeth a chyfrannu at ansawdd bywyd a llesiant y gymuned. Mae paragraff 5.3.11 o PCC yn esbonio'r polisi mewn perthynas â safleoedd o'r fath. Mae polisiau mewn Cynlluniau Datblygu Unedol a Chynlluniau Datblygu Lleol yn darparu ar gyfer eu hamddiffyn. Mae'r buddiannau cadwraeth natur y maent wedi'u dynodi ar eu cyfer yn ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau cynllunio.

5.5.2 Dylai safleoedd sydd wedi'u dynodi'n lleol fod yn destun meini prawf trylwyr i sicrhau bod cyfiawnhad dros eu dynodiad ar sail fiolegol neu ddaearegol. Dylai'r broses o ddynodi a chynnal a chadw'r safleoedd fod yn dryloyw gyda chofnodion ac asesiadau ar gael i'r cyhoedd, oni bai bod gwybodaeth am rywogaethau penodol yn sensitif o ran eu hamddiffyniad. Dylai datblygwyr allu nodi sut y gall eu cynigion effeithio ar y buddiannau y mae'r safleoedd wedi'u dynodi ar eu cyfer (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol) a, lle bo'n berthnasol, sut mae'r safleoedd yn cyfrannu at rwydweithiau ecolegol neu frithweithiau ehangach.

5.5.3 Mae cadwraeth a gwella safleoedd sydd wedi'u dynodi'n lleol yn gyfraniad pwysig at weithredu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth ac at reoli nodweddion y dirwedd o bwysigrwydd mawr i fflora gwylt a ffawna (gweler paragraff 3.2.2 uchod). Dylai datblygwyr osgoi niwed i'r buddiannau hynny lle bo hynny'n bosibl. Lle na ellir osgoi niwed dylid ei leihau gan fesurau lliniaru a'i wrthbwyso cyn belled ag y bo modd gan fesurau digolledu a gynlluniwyd i sicrhau nad oes gostyngiad yng ngwerth cadwraeth natur cyffredinol yr ardal na'r nodwedd. Lle ei bod yn bosibl y bydd effaith ar safleoedd sydd wedi'u dynodi'n lleol, dylai datblygwyr ymgynghori â'r awdurdod cynllunio lleol a'r Ymddiriedolaeth Natur a/neu'r Ganolfan Cofnodion Lleol i gytuno ar y wybodaeth y bydd ei hangen i asesu goblygiadau'r datblygiad a'r mesurau lliniaru a digolledu.

5.5.4 Pan fo cynigion datblygu yn gallu effeithio ar gynefinoedd neu rywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth cenedlaethol neu leol, mae'r un egwyddorion yn berthnasol ag i safleoedd dynodedig lleol ym mharagraff 5.5.2 uchod (gweler cynefinoedd pellach a rhywogaethau o'r pwysigrwydd pennaf ar gyfer bioamrywiaeth yng Nghymru yn adran 6.5 isod).'

4. Terminoleg

Defnyddir llawer o deitlau ar gyfer Safleoedd Lleol biolegol, gan gynnwys Safle Treftadaeth Fiolegol, Safle o Ddiddordeb Cadwraeth Natur, Safleoedd o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur, Safle o Ddiddordeb Biolegol a Safle o Ddiddordeb Cymunedol, ond y term 'Safle Bywyd Gwylt' yw'r teitl a ffefrir gan Bartneriaeth Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt y DU.

Yng Nghymru, Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur yw'r term cydnabyddedig a ddefnyddir yng nghanllawiau cynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru a pholisiau cynllunio lleol ar gyfer Safleoedd Lleol biolegol. Awgrymir bod Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur yn parhau i gael ei ddefnyddio yn y cyd-destun hwnnw, gellir ystyried Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur yn Safle Bywyd Gwylt pan fydd cytundeb perchennog, cyngor rheoli a/neu gymorth, ac o bosibl cyllid wedi'u darparu. Gelwir safleoedd daearegol lleol yn Safle Daearegol o Bwysigrwydd Rhanbarthol, a gydnabyddir gan ganllawiau cynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru a pholisiau cynllunio lleol.

5. Dynodiad SINC

Bydd dynodiad SINC yn Sir Gaerfyrddin yn dilyn y Canllawiau ar gyfer Dewis Safleoedd Lleol yng Nghymru, 2008 (Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru) (Canllawiau SINC o hyn allan), neu unrhyw uwchraddio dilynol i'r canllawiau hyn.

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn croesawu cyflwyniadau darpar SINCs gan sefydliadau ac unigolion sy'n dilyn adrannau 3.1 – 3.2 isod.

Gofynion ar gyfer dynodi - adroddiadau

Bydd cyflwyniadau darpar SINCs yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad ac yn disgrifio gwerth ecolegol presennol y darpar SINC, bydd hyn fel arfer yn seiliedig ar arolwg botanegol ond gan ystyried rhywogaethau eraill a ddiogelir neu â blaenoriaeth a allai fod yn bresennol. Mae'n rhaid i'r adroddiadau ddilyn 7 canllaw y Canllawiau SINC. Rhaid iddo fod yn glir yn yr adroddiad bod y safle arfaethedig yn bodloni un neu fwy o'r cynefinoedd neu'r canllawiau rhywogaethau a ddisgrifir yng Nghanllawiau'r SINC.

Yn ogystal â hyn, rhaid darparu data GIS (Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol) ar ffurf ffeiliau i ddarparu cynrychiolaeth weledol o ffiniau arfaethedig y darpar SINC.

a. Arbenigedd

Bydd yr adroddiad yn cael ei baratoi a'i adolygu gan ecolegydd, naturiaethwr neu gadwraethwr sydd â phrofiad priodol. Rhaid darparu tystiolaeth o brofiad, cymwysterau ac unrhyw aelodaeth broffesiynol.

b. Gofynion ar gyfer dynodi – setiau data System Gwybodaeth Ddaearyddol, synhwyro o bell, a delweddaeth o'r awyr

Gall dynodiad SINC o grwpiau o safleoedd fod yn bosibl yn seiliedig ar ddata System Gwybodaeth

Ddaearyddol, synhwyro o bell, a delweddau o'r awyr lle gellir dangos bod y data hwnnw'n ddigon cywir i fodloni Canllawiau SINC.

Rhaid i'r panel arbenigol asesu grwpiau o safleoedd cyn cael eu cadarnhau fel SINC.

c. Y panel arbenigol

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn sefydlu panel o arbenigwyr perthnasol i reoli'r broses o asesu SINC yn erbyn Canllawiau SINC a dewis safleoedd i'w dynodi. Bydd y sail ar gyfer dewis safle unigol yn cael ei chofnodi ar gyfer pob safle o ran y rhywogaeth, y cynefin neu'r nodwedd y barnwyd ei bod o werth sylweddol ar ei gyfer a'r meini prawf y cafodd ei ddewis arnynt.

d. Rhwydweithiau ecolegol

Mae poblogaethau bach ynysig o rywogaethau yn llawer mwy agored i ddiflannu na phoblogaethau sy'n gallu gwasgaru a rhyngfridio â phoblogaethau eraill. Mae effeithiau newid hinsawdd yn debygol o gynyddu difodiant lleol ymysg poblogaethau bach, ynysig. Mae'n bwysig cynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol o gynefinoedd lled-naturiol sydd â lefel uchel o gysylltedd. Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn ei gwneud yn ofynnol i bolisiau cynllunio warchod nodweddion y dirwedd sydd o bwysigrwydd mawr i fflora a ffawna gwylt, gan gynnwys y nodweddion llinol hynny sy'n hanfodol ar gyfer ymfudo, gwasgaru a chyfnewid genetig rhywogaethau gwylt.

Bydd gwybodaeth a gesglir o setiau data rhwydwaith ecolegol fel Rhwydweithiau Cynefin Cyfoeth Naturiol Cymru a Rhwydweithiau Ecolegol â Blaenoriaeth yn cael ei defnyddio i helpu i lywio gwerth cyffredinol a ffiniau'r darpar SINC.

e. Mapio SINC

Bydd safleoedd a ddewisir gan y panel arbenigol yn cael eu dynodi'n SINC a'u mapio yn hygyrch. Bydd lleoliadau SINC ar gael i'r cyhoedd a bydd adroddiadau ar gael drwy gais y cyhoedd.